sir ddinbych
denbighshire
Cyngor
County Council

# Cyngor Sir Ddinbych (Amrywiol Ffyrdd yn Sir Ddinbych) (Dirymu Parthau 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 30mya) a (Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20 mya) Gorchymyn 2025

Mae Cyngor Sir Ddinbych (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1(1) a (2) a 2(1) i (3) a rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984 y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”) a phob pŵer arall sy’n ei alluogi, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar        2025 a gellir ei enwi yn Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Amrywiol Ffyrdd Sir Ddinbych) (Dirymu parthau 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 30mya) a (Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20mya) 2025.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English

# Gorchymyn Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20 mya (Ffyrdd Amrywiol) 2025

Mae'r Gorchmynion a restrwyd yn **Atodlen 1** i'r gorchymyn hwn drwy hyn yn cael eu dirymu ar hyd y ffyrdd yn y gorchmynion y soniwyd amdanynt ac felly â statws ffordd gyfyngedig.

Mae'r Gorchmynion a wnaed yn flaenorol gan Gyngor Sir Ddinbych a restrwyd yn **Atodlen 2** wedi eu dirymu

Ni fydd unrhyw un yn achosi i unrhyw gerbyd deithio ar gyflymder dros 20mya ar y darn o ffordd a nodir yn **Atodlen 3** isod.

**Atodlen 4** - Cynlluniau ynghlwm yn ymwneud â Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Ffyrdd Amrywiol Sir Ddinbych) (Diddymu Parthau 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 30mya) a (Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20mya ar wahanol ddarnau o ffyrdd yn Sir Ddinbych) 2025

**Mynegai Cynllun Atodlen 5** ar gyfer Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Ffyrdd Amrywiol Sir Ddinbych) (Diddymu Parthau 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 30mya) a (Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20mya ar hyd amrywiol ffyrdd yn Sir Ddinbych) 2025

Ni fydd Darpariaethau Atodlen 3 yn berthnasol i unrhyw gerbyd ar unrhyw adeg y'i defnyddir ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans, y gwasanaeth tân neu ddibenion yr heddlu pe bai cydymffurfio â'r ddarpariaeth honno'n debygol o atal defnyddio cerbyd at y diben y'i defnyddir ar yr adeg dan sylw.

Os bydd unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth unrhyw Orchymyn a wnaed neu sydd â'r un grym â phe'i gwnaed dan y Ddeddf, ac sy'n bodoli pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, darpariaethau'r Gorchymyn hwn fydd drechaf.

Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio pan mae'r cyd-destun yn gofyn fel arall, mae gan "cerbyd modur" yr un ystyr â'r hyn sydd yn Adran 136 o'r Ddeddf.

# Gorchymyn Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20 mya (Ffyrdd Amrywiol) 2025

1. Mae'r Gorchmynion a restrwyd yn Atodlen 1 i'r gorchymyn hwn drwy hyn yn cael eu dirymu ar hyd y ffyrdd yn y gorchmynion y soniwyd amdanynt ac felly â statws ffordd gyfyngedig.

## Atodlen 1

- Gorchymyn Cyngor Sir Clwyd (Princes Street, y Rhyl) (terfyn cyflymder 20mya) (Rhif 5) 1993'
- Gorchymyn Cyngor Sir Clwyd (Rhodfa'r Brenin ac Oxford Grove, y Rhyl) (Terfyn Cyflymder 20mya) 1996
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (B5119 GRANGE ROAD, Y RHYL) (CYFYNGIAD CYFLYMDER AMRYWIOL) 2007
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (SPRUCE AVENUE A FFYRDD CYFAGOS, Y RHYL) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA) 2010
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (AMRYWIOL FFYRDD, Y RHYL, LLANGOLLEN A CHYNWYD) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA) 2017
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (FFORDD DDIDDOSBARTH, LLANDEGLA) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA) 2017
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (FFORDD TRELLEWELYN A TRELLEWELYN CLOSE, Y RHYL) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA) 2017

# Gorchymyn Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20 mya (Ffyrdd Amrywiol) 2025

| |
|---|
| 2. Mae’r Gorchmynion a wnaed yn flaenorol gan Gyngor Sir Ddinbych a restrwyd yn Atodlen 2 wedi eu dirymu |

## Atodlen 2

- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (A543 DINBYCH) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30MYA) 2015
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (FFORDD GWAENYNOG, DINBYCH) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30MYA) 1971
- Gorchymyn Cyngor Sir Clwyd (A525 Ffordd Dinbych, Rhuthun) (Ffyrdd Cyfyngedig) (Rhif 1) 1985
- GORCHYMYN CYNGOR SIR DDINBYCH (B5429 Pentre Celyn) (Cyfyngiad Cyflymder 30 mya) 2018

| |
|---|
| 3. Ni fydd unrhyw un yn achosi i unrhyw gerbyd deithio ar gyflymder dros 20mya ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 3 isod. |

## Atodlen 3

- A543 St Brigids A543; o’r ffin ogleddol o’r Orsaf Bwmpio, i gyfeiriad y de i’r golofn oleuo bresennol gyntaf (oddeutu 14 metr o ganol mynedfa Ysgol St Brigids, i gyfeiriad y de)
- Ysgol Bro Famau, Llanarmon yn Iâl Ffordd Ddiddosbarth y tu allan i Ysgol Bro Famau, Llanarmon yn Iâl; rhwng pwynt 15 metr i’r de o’i ffin mwyaf deheuol o’r ysgol i gyfeiriad y gogledd i’w ffin mwyaf dwyreiniol
- Ysgol Llanbedr DC, Ffordd Llanbedr; rhwng pwynt 33 metr i’r gogledd o ymyl palmant gogleddol a ragwelir o fynediad cerbydau gogleddol yr ysgol ac i bwynt 127 metr i’r de o ymyl palmant gogleddol a ragwelir o fynediad cerbydau gogleddol yr ysgol.
- Ysgol Pentre Celyn, Pentre Celyn - B5429; rhwng pwynt sydd 98 metr i’r de o ffin ddeheuol mynedfa gerbydau’r ysgol isaf at y gyffordd â’r ffordd ddiddosbarth o Old Farmhouse i Dderwen Llanerch - Rhuthun

# Gorchymyn Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20 mya (Ffyrdd Amrywiol) 2025

4. Cynlluniau a atodir yn Atodlen 4 sy'n ymwneud â:-

Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Ffyrdd Amrywiol Sir Ddinbych) (Diddymu Parthau 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 30mya) a (Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20mya ar hyd amrywiol ffyrdd yn Sir Ddinbych) 2025Schedule 4

## Atodlen 4

Gweler y cynlluniau ynghlwm

5. Mae mynegai'r Cynllun isod yn ymwneud â gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Ffyrdd Amrywiol Sir Ddinbych) (Diddymu Parthau 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 30mya) a (Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20mya ar hyd amrywiol ffyrdd yn Sir Ddinbych) 2025

## Atodlen 5 (Mynegai cynllun)

1 A543 Ysgol Santes Ffraid, Dinbych SL002A

2 Ysgol Bro Famau, Llanferres a Llanarmon SL002B

3 Ysgol Llanbedr DC, Ffordd Llanbedr SL002C

4 Ysgol Pentre Celyn, Pentre Celyn SL002D

# Gorchymyn Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20 mya (Ffyrdd Amrywiol) 2025

RHODDWYD DAN SÊL GYFFREDIN

CYNGOR SIR DDINBYCH

Ar y ___ diwrnod o ________ 2025

Llofnodwr Awdurdodedig

Dyddiedig_______________________ 2025

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Gorchymyn (Amrywiol Ffyrdd yn Sir Ddinbych) (Dirymu Parthau 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 20mya, Cyfyngiadau Cyflymder 30mya) a (Creu Cyfyngiadau Cyflymder 20 mya) 2025**

fel y nodir oddi mewn

Catrin Roberts,

Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

SBH/158424